

Ymateb Estyn i'r cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar gan drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn mis Medi 2026, fan bellaf.

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion. Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT), sef cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn unig, gan roi Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae'r cynigion yn debygol o wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhesymeg addas yn amlinellu'r rhesymau ar gyfer y cynnig.

Yn ôl arolwg cyflwr eiddo Ysgol Gyfun Aberpennar, mae'r Cyngor yn amlinellu ei bod yn cael ei dosbarthu'n radd B am gyflwr ac addasrwydd, a'i bod yn cydymffurfio'n rhannol â Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer hygyrchedd. O'r herwydd, mae angen mwy o waith uwchraddio ar safle ac adeilad yr ysgol, a fydd yn costio tua £1.4 miliwn. Mae Ysgol Gyfun Aberdâr wedi'i graddio yn A am gyflwr ac addasrwydd. Cafodd ei dylunio i fodloni'r safonau a'r rheoliadau a amlinellir ym Mwletin Adeiladu 99. Mae'r safle a'r adeilad yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn cynnig cyfle i ddisgyblion dderbyn eu darpariaeth ôl-16 yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn dangos, er bod nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol wedi aros fwy neu lai'n gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r chweched dosbarth wedi gostwng rhyw 6.8%. Er 2014/15, mae nifer y disgyblion chweched dosbarth wedi gostwng 43%.

Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn rhan o Gonsortium Ôl-16 Cwm Cynon ar hyn o bryd, sy'n eu galluogi i gydymffurfio â'r disgwyliadau a amlinellir yn y Cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth trwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000), Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a chanllawiau cysylltiedig. Roedd cofrestriad deul gan fwyafrif y disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun

Aberpennar, gan olygu eu bod yn cael rhywfaint o'u haddysg ôl-16 mewn ysgol uwchradd arall yn y consortiwm. O ran cymhariaeth, mae cofrestrriad deuol gan leiafrif y disgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, gan olygu bod y mwyafrif ohonynt yn cael eu holl addysg ôl-16 yn eu hysgol. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd capasiti digonol i wneud lle i'r holl ddarpar ddisgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Byddai hyn yn gostwng capasiti rhagamcanol nifer y lleoedd dros ben yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i ryw 15.8% os caiff y cynnig ei roi ar waith.

Ni fydd y cynigion yn effeithio ar y sefydliadau ôl-16 presennol. Bydd y drefn yn aros yr un fath o ran disgyblion yn cael dewis parhau â'u hastudiaethau yn chweched dosbarth eu dalgylch neu astudio yng Ngholeg Y Cymoedd.

Rhoddodd y Cyngor ddisgrifiad addas o fanwl o'r cynnig, gan gyflwyno'i gefndir a chynnwys amcan amserlen ar gyfer cwblhau gweithdrefnau statudol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau amgen, yn cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol, ffedereiddio Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr, a chael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth o'r naill a'r llall. Mae'r Cyngor wedi darparu manteision ac anfanteision rhesymol yr opsiynau amgen hyn. Mae'r rhain yn ymddangos yn deg a phriodol.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Mae'r prif fanteision yn cynnwys darparu cwricwlwm gwell ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol, amgylchedd dysgu estynedig, effeithlonrwydd ariannol a sefydliadau cymdeithasol ac academaidd gwell. Mae'r prif anfanteision yn cynnwys effaith negyddol ar les disgyblion trwy drosglwyddo i amgylchedd anghyfarwydd, amser teithio cynyddol i ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar a chostau cysylltiedig i CBSRhCT. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r Cyngor wedi ystyried effaith y penderfyniad hwn ar ddarpariaeth 11-16 yn ddigon da yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Er enghraifft, gallai brodyr a chworydd benderfynu mynd i Ysgol Gymunedol Aberdâr er eu bod yn byw o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar.

Mae'r Cyngor wedi nodi tair risg yn gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y staff yn Ysgol Gyfun Aberpennar oherwydd nad oedd rhai rolau yn ofynnol mwyach, cynnydd mewn traffig ar y rhwydwaith ffyrdd a'r effaith negyddol ar gymuned Ysgol Gyfun Aberpennar yn sgil cael gwared ar y chweched dosbarth. Er bod y Cyngor wedi cyflwyno camau lliniaru addas o ran y risgiau hyn, nid oes unrhyw wybodaeth ynglŷn â faint o aelodau staff fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried y bydd y colli swyddi posibl yn cael effaith gymedrol yn hytrach nag effaith uchel.

Mae'r Cyngor wedi dangos effaith y cynnig ar drefniadau cludiant. O dan bolisi cludiant presennol y Cyngor, bydd disgyblion ôl-16 sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol neu'u coleg addas agosaf yn parhau i dderbyn cludiant am ddim. Amcangyfrifir y bydd gan bron yr holl ddisgyblion chweched dosbarth sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar hawl i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae'n ymddangos bod hyn yn deg a rhesymol.

Mae'r Cyngor wedi dangos effaith y cynnig ar leoedd dros ben yn briodol. Yn ôl data CYBLD 2023-2024, roedd 981 o ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Aberpennar, yn

cynnwys 82 yn y chweched dosbarth, ac mae ganddi leoedd dros ben. Cyfrifwyd bod gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 1,394 o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'n ymddangos nad oes digon o alw am leoedd yno. Mae data'r Cyngor yn dangos y bydd capasiti rhagamcanol y lleoedd dros ben tua 32.6% (455 o leoedd) yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn 2028-2029. Yn ôl data CYBLD 2023-2024, roedd 1,285 o ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, yn cynnwys 124 yn y chweched dosbarth, ac mae ganddi leoedd dros ben. Cyfrifwyd bod ganddi gapasiti ar gyfer 1,574 o ddisgyblion. O ganlyniad, mae'n ymddangos nad oes digon o alw am leoedd yno. Mae data'r Cyngor yn dangos y bydd capasiti rhagamcanol y lleoedd dros ben tua 21.0% (330 o leoedd) yn Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn 2028-2029.

Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer y cynnig hwn. Mae'n datgan, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, y byddai dalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ehangu i gynnwys dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn unig.

Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried na fydd effaith negyddol. Mae'n awgrymu y dylai'r effaith ar y grwpiau Cymraeg fod yn niwtral gan na fydd yn arwain at agor chweched dosbarth cyfrwng Saesneg newydd yn CBSRhCT.

Mae'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau ariannol y cynnig yn ddigonol. Maent yn amlygu'n briodol y pwysau ariannol o ran niferoedd bach y disgyblion chweched dosbarth, a lle maent yn bodoli, caiff adnoddau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr oedran statudol eu hailgyfeirio i roi cymhorthdal ar gyfer darpariaeth ôl-16. Nododd y Cyngor fod diffyg o ryw £201,000 ar draws y ddwy ysgol rhwng y cyllid a ddyrannwyd a chost wirioneddol cyflwyno darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweld, os aiff y cynnig yn ei flaen, y bydd mymryn o ostyngiad yn y dyraniad a amcangyfrifir fesul disgybl yn Ysgol Gymunedol Aberdâr a chynnydd yn Ysgol Gyfun Aberpennar i £5,775.

Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn awgrymu y bydd y cynnig hwn yn gwella'r ddarpariaeth 11-16 yn y ddwy ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyllid ysgolion. Mae'n amlygu na fyddai unrhyw oblygiadau o ran cyllid cyfalaf yn sgil y cynnig hwn i gau, a bydd arbedion refeniw yn cael eu hailfuddsoddi mewn cefnogi addysg plant a phobl ifanc ar draws CBSRhCT.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried effaith y cynigion ar yr ansawdd a'r safonau mewn addysg. Maent wedi cynnwys deilliannau adroddiadau arolygiadau diweddaraf Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr. Yn 2019, gosodwyd Ysgol Gyfun Aberpennar yn y categori adolygu gan Estyn (categori anstatudol). Yn 2018, gosodwyd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn y categori gwelliant sylweddol. Fodd bynnag, barnwyd bod y ddwy ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn 2021 a chawsant eu tynnu o'u categori priodol.

Mae'r Cyngor yn awgrymu y byddai ad-drefnu'r dosbarthiadau chweched yn y ddwy ysgol yn diwallu anghenion addysgol disgyblion yn well trwy gryfhau trefniadau rheoli, gwella'r defnydd effeithlon o adnoddau, a chyflwyno cwricwlwm ehangach sy'n gwella ansawdd y profiad addysgol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig hwn ar ddisgyblion ac yn cynnig mecanweithiau cymorth addas i liniaru'r effaith hon.

Mae'r Cyngor wedi nodi sut gallai'r cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn mis Medi 2026 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn. Er bod y rhain yn amlinellu'n rhesymol y manteision posibl i Ysgol Gymunedol Aberdâr, nid ydynt yn ystyried yr effaith ar Ysgol Gyfun Aberpennar. Felly, nid ydynt yn cynnig safbwynt cytbwys.

Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig. O ganlyniad i'r asesiad hwn, daethpwyd i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig o ran anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn awgrymu bod capasiti digonol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i fodloni'r cynnydd yn y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae eu hymateb yn briodol.